GwerthwchiGymru
Sell2Wales




# Sign On Cymru

## Prynwr Presennol - Cofrestru eich cyfrif gydag SOC

gwerthwchigymru.llyw.cymru

0800 222 9004

## Sign On Cymru

Mae 'Sign On Cymru' yn golygu y bydd angen cael un enw defnyddiwr a chyfrinair yn unig i bob unigolyn i gael mynediad i wasanaethau cymorth busnes digidol yn y dyfodol, gan ddisodli'r system gyfredol o gael nifer o gyfrineiriau mewngofnodi gwahanol wedi'u cysylltu â phob gwasanaeth a gyrchir trwy wasanaethau digidol Busnes Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys Busnes Cymru, BOSS, cofrestr rhanddeiliaid, cyfeirlyfr busnes, system rheoli digwyddiadau a Phorth GwerthwchiGymru.

## Sut i gofrestru ar GwerthwchiGymru gan ddefnyddio SOC

Ewch i hafan GwerthwchiGymru – [GwerthwchiGymru.llyw.Cymru](GwerthwchiGymru.llyw.Cymru)

Cliciwch **Mewngofnodwch** - Cewch eich trosglwyddo i'r dudalen wybodaeth SOC.

Cliciwch ar **Ymlaen i fewngofnodi / Cofrestru** - cewch eich trosglwyddo i'r dudalen rhyngwyneb SOC.

Cliciwch ar y linc **"Heb cyfrif? Creu cyfrif nawr"**



GwerthwchiGymru
Sell2Wales

Rhowch y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiasoch i gofrestru gyda GwerthwchiGymru.

Cliciwch ar **‘Anfon cod dilysu’.**




Bydd cod dilysu yn cael ei anfon at eich cyfeiriad e-bost.




Rhowch y Cod a dderbyniwyd yn y maes cod dilysu ar y ffurflen SOC a chlicio **Gwirio’r Cod.**




Rhowch eich cyfrinair newydd a chadarnhau hyn yn yr ail faes.




Cliciwch **Creu**, yna cewch eich trosglwyddo i'ch tudalen cofrestru cychwynnol.

## Manylion sefydliad

Cwblhewch bob maes gorfodol. Bydd y data sydd eisoes ar gael ar gronfa ddata GwerthwchiGymru yn cael eu tynnu i'ch cyfrif SOC.




## Manylion cyfathrebu

Cwblhewch y meysydd gorfodol, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar eich dewis iaith cyfathrebu.



Cliciwch **Cadw gosodiadau** - byddwch wedyn yn cael eich trosglwyddo i banel rheoli eich

prynwr.Os methwch â chwblhau a safio’r proffil GwerthwchiGymru o fewn 24 awr o gofrestru, bydd eich cofrestriad "sign on Cymru" yn cael ei ddileu a bydd rhaid i chi gofrestru drwy SOC unwaith eto.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch â ni ar **0800 222 9004.**